



Newyddion Pensiynau Gwent

Cylchlythyr ar gyfer Aelodau Gweithredol a Gohiriedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf

Croeso gan y Rheolwr Pensiwn



Croeso i rifyn haf 2024 o Newyddion Pensiynau Gwent, ein cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a materion amserol eraill yn ymwneud â phensiynau. Yn y rhifyn hwn cewch wybod am ddatganiad buddion blynyddol 2023/24 a'r Datganiad Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, cyfraddau cyfrannu a throthwyon 2024/25, newidiadau i dreth pensiwn, partneriaid sy'n cyd-fyw, adran 50/50, seiberddiogelwch a chynlluniau twyllodrus yn ymwneud â phensiynau.

Cofion Gorau,

Jo Griffiths

Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein

Bydd eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2023/24 ar gael erbyn 31 Awst 2024 ar eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

Os nad ydych wedi cofrestru i weld eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein eto

Ewch i'n gwefan

www.gwentpensionfund.co.uk a chliciwch ar ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein ar frig y sgrin.

Os ydych yn defnyddio dyfais symudol bydd gofyn i chi glicio ar yr eicon tair llinell ger y chwyddwydr ar ben uchaf yr Hafan ar y dde.

Mae yna bedwar cam syml i gofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein.

Cam 1

Cliciwch ar **Cofrestrwch ar gyfer Fy Mhensiwn**

Cam 2

Cliciwch ar **Cofrestru a gyfer Fy Mhensiwn**

Cam 3

Teipiwch eich **Cyfenw, Rhif Yswiriant Gwladol, Dyddiad Geni a Chyfeiriad E-bost** a chliciwch ar Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn

Cam 4

Os oes cyfeiriad e-bost gennym ar eich cofnod byddwn yn anfon dolen actifadu at y cyfeiriad hwnnw ac nid yr un yr ydych yn ei ddefnyddio wrth gofrestru. **Os ydych wedi newid eich cyfeiriad e-bost a heb ddweud wrthym, dylech ein ffonio i sicrhau bod y ddolen yn mynd i'r cyfeiriad e-bost cywir.**

Os nad oes cyfeiriad e-bost gennym ar eich cofnod, **byddwn yn anfon cod actifadu at-och yn y post o fewn 3 i 5 niwrnod. Os yw'ch cyfeiriad wedi newid ac nid ydych wedi dweud wrthym, ffoniwch ni i sicrhau bod y cod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.**

Sut i weld eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2023/24 — Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, cliciwch ar y panel **Datganiad Buddion Blynyddol**.

Bydd hwn wedyn yn dangos y datganiad buddion pensiwn diweddaraf ar gyfer eich cyfrif pensiwn. Gallwch weld canllaw i ddeall eich datganiad pensiwn o dan **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau**

Sut i weld eich Cylchlythyr Blynyddol — pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein. Cliciwch ar **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau**.

Cyfraddau Cyfraniadau a Throthwyon 2024/25

Cyflog Blynnyddol	Cyfraniad	
	Prif	50/50
Hyd at £17,600	5.5%	2.75%
£17,601—£27,600	5.8%	2.9%
£27,601—£44,900	6.5%	3.25%
£44,901—£56,800	6.8%	3.4%
£56,801—£79,700	8.5%	4.25%
£79,701—£111,900	9.9%	4.95%
£111,901—£133,100	10.5%	5.25%
£133,101—£199,700	11.4%	5.7%
£199,701 neu fwy	12.5%	6.25%

Lwfans Blynnyddol	£60,000
Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol	£8,344

Datganiadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Ar-lein

Am y tro cyntaf eleni, fe fydd Datganiadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn cael eu lanlwytho i gyfrifon Fy Mhensiwn Ar-lein aelodau. Byddwn yn gwneud hyn yn hytrach nag anfon copïau caled at aelodau drwy'r post.

Sut i weld eich Datganiad Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ar gyfer 2023/24

Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

Cliciwch ar y panel **Datganiad Buddion Blynnyddol**. Yna, bydd hyn yn dangos eich datganiad buddion pensiwn diweddaraf i chi. Yr enw arno fydd **Datganiad Blynnyddol o Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol**. Mae'r datganiadau wedi eu rhestru yn ôl y dyddiad y cawsant eu lanlwytho ac mae datganiadau 2024 ar frig y rhestr.



Pan newidiodd cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus o gynlluniau pensiwn cyflog terfynol i gynlluniau cyfartaledd gyrfya yn 2014 a 2015, amddiffynnwyd aelodau hŷn rhag y newidiadau.

Yn 2018, daeth y Llysoedd i'r casgliad fod aelodau ifancach wedi dioddef gwahaniaethu am nad oedd yr amddiffyniad yn berthnasol iddyn nhw. Mae newidiadau a wnaed i'r CPLIL o 1 Hydref 2023 yn cael gwared ar y gwahaniaethu y daethpwyd ar ei draws yn yr achos llys. Yr enw ar y newidiadau hyn yw rhwymedi McCloud.

Nid yw'r newidiadau'n effeithio ar bob aelod o'r CPLIL. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan genedlaethol CPLIL, gan gynnwys fideo byr. Ewch i www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/

Os yw hyn yn effeithio arnoch, does dim angen i chi ysgrifennu at y gronfa bensiwn na gwneud unrhyw benderfyniadau. Os oes sefydliad trydydd parti yn cysylltu â chi yn gwerthu gwasanaeth i'ch helpu i hawlio pensiwn ychwanegol, ddylech chi ddim ymgysylltu â nhw.

Fel aelod o CPLIL does dim angen i chi wneud unrhyw beth i hawlio'ch amddiffyniad o dan rwymedi McCloud . Os ydych yn gymwys, bydd y Gronfa Bensiwn yn eich amddiffyn yn awtomatig pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn CPLIL.

Cewch ragor o wybodaeth am y CPLIL ar ein gwefan - www.gwentpensionfund.co.uk neu wefan genedlaethol y CPLIL i aelodau - www.lgpsmember.org

Newidiadau i Dreth Pensiwn

Cyflwynodd y Llywodraeth reolau newydd ynghylch treth ar bensiwn ar gyfer cynilion pensiwn ar 1 Ebrill 2024.

Cyflwynwyd dau drothwy ar gyfer cyfandaliadau. Os yw cyfanswm y cyfandaliadau rydych chi'n eu cymryd o bensiynau'r DU yn fwy nag un o'r trothwyon, bydd gofyn i chi dalu treth ychwanegol.

Yn gyffredinol, gall aelodau CPLIL gymryd hyd at 25% o werth eu buddion fel cyfandaliad. Fydd hyn ddim yn effeithio ar y rhan fwyaf o aelodau gan y bydd uchafswm eu cyfandaliad yn is na'r trothwy.

Lwfans Cyfandaliad

Trothwy ar faint o arian di-dreth y gall aelod ei gymryd wrth ymddeol. Mae'r Lwfans Cyfandaliad yn £268,275. Caiff ei ddefnyddio trwy dalu'r mathau canlynol o gyfandaliadau o unrhyw bensiwn yn y DU ac nid dim ond CPLIL: -

- Cyfandaliad Dechrau'r Pensiwn
- Cyfandaliad Pensiwn Cronfeydd Heb eu Crisialu
- Cyfandaliad Untro

Lwfans Buddion Marwolaeth a Chyfunddaliad?

Mae'r Lwfans Buddion Marwolaeth a Chyfunddaliad yn £1,073,100. Mae hwn yn drothwy ar yr arian di-dreth y gall aelod ei gymryd ac y gellir ei dalu ar ei ran pan fydd yn marw.

Caiff ei ddefnyddio trwy dalu'r cyfandaliadau perthnasol canlynol: -

- Cyfandaliad Dechrau Pensiwn
- Cyfandaliad Pensiwn Cronfeydd Heb eu Crisialu
- Cyfandaliad Untro
- Cyfandaliad Salwch Difrifol
- Budd marwolaeth cyfandaliad perthnasol.

Mae rhannau di-dreth Cyfandaliad Pensiwn Cronfeydd Heb eu Crisialu a'r Cyfandaliad Untro yn lleihau'r Budd marwolaeth a chyfundaliad. Nid yw unrhyw fudd marwolaeth cyfandaliad perthnasol yn cynnwys un a dalwyd ar gyfer hawliau pensiwn a dalwyd allan cyn 6 Ebrill 2024. Nid yw'r rhain yn lleihau Lwfans buddion marwolaeth a chyfundaliad.

Byddai unrhyw gyfandaliadau sy'n fwy na'r lwfans yn cael eu trethu ar gyfradd dreth incwm ffiniol yr aelod. Cyfrifir cyfradd dreth incwm ffiniol ar incwm trethadwy aelod.


Lwfans Trosglwyddo Dramor

Mae'r Lwfans Trosglwyddo Dramor yn £1,073,100. Mae'n drothwy ar werth y trosglwyddiadau dramor a ganiateir cyn y byddai aelod yn gorfod talu Tâl Trosglwyddo Dramor. Unwaith fydd aelod wedi defnyddio'i lwfans bydd Tâl Trosglwyddo Dramor gywerth â 25% o werth y trosglwyddiad.

Cyn 6 Ebrill petai'r gwerth a drosglwyddwyd i QROPS yn fwy na'r Lwfans Oes a oedd ar gael a dim un o'r eithriadau'n cael eu bodloni, byddai'r aelod yn wynebu taliadau Lwfans Oes a Throsglwyddo Dramor. Er 6 Ebrill 2024 mae un tâl yn unig.

Cronfa Bensiwn 2023/24 mewn ffigurau...


Nifer yr Aelodau




MAE GAN Y GRONFA
BENSIWN 63,505
O AELODAU.

ATEBODD EIN STAFF
23,109 GALWAD I'N
PRIF RIFAU FFÔN

Galwadau a Atebwyd



Negeseuon E-bost a Dderbyniwyd



CAWSOM 24,683
NEGES E-BOST I'N
BLYCHAU E-BOST
CANOLOG

RYDYN NI WEDI TALU
£108,700,733.80
MEWN TALIADAU PEN-
SIWN I BENSIYNWYR

TÍM BUDDION WEDI
CREU 20,874 ACHOS
GWAITH A CHWBLHAU
20,704 ACHOS

BRON I 5,000
AELOD YN COFRESTRU I
DDEFNYDDIO FY
MHENSIWN AR-LEIN

Mae CPLIL yn cynnig tawelwch meddwl a sicrwydd ariannol i aelodau'r teulu ac mae yna ddarpariaeth bywyd a phensiwn ar unwaith i'r cymar, partner sifil, plant cymwys a phartneriaid cymwys sy'n cydfyw yn dilyn eu marwolaeth.

Mae partner cymwys sy'n cydfyw yn bartner yr ydych yn byw gydag ef/hi lle rydych chi a'ch partner wedi bodloni'r holl amodau canlynol am o leiaf ddwy flynedd adeg eich marwolaeth: -

- rhydd i briodi'ch gilydd neu ffurfio partneriaeth sifil â'ch gilydd
- cydfyw fel petaech yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil; ac
- heb fod yn byw gyda rhywun arall fel petaech yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil; a
- roedd eich partner yn neu wedi bod yn ddibynnol arnoch chi neu roedd-eich chi wedi bod yn rhyngddibynnol ar eich gilydd yn ariannol.

Telir pensiynau hefyd i bartneriaid cymwys sy'n cydfyw os talodd yr aelod i mewn i'r CPLIL ar ôl 31 Mawrth 2008.

Cofiwch, wrth hawlio, y gofynnir am dystiolaeth o'r amodau uchod e.e. biliau'r dreth gyngor a chyfleustodau ar y cyd, manylion cyfrif banc ar y cyd, copïau o archddyfarniad absoliwt os oeddech yn briod yn flaenorol.

Os ydych yn dymuno cofrestru eich partner sy'n cydfyw ar eich cyfrif pensiwn gallwch lawrlwytho ffurflen partner sy'n cydfyw oddi ar ein gwefan, ar www.gwentpensionfund.co.uk/forms-and-publications/cohabiting-partner-form/

Cynlluniwyd adran 50/50 CPLIL i helpu aelodau i aros yn y cynllun ac i barhau i gronni buddion pensiwn gwerthfawr yn hytrach na gadael y cynllun yn llwyr.

Os bydd aelod yn ymuno ag adran 50/50 CPLIL, gall dalu hanner y cyfraniadau arferol, cronni hanner y pensiwn, a chael yr un ddarpariaeth bywyd a salwch â phetaent yn y brif adran.

Ar ôl i chi ymuno â'r adran 50/50 gallwch symud yn ôl i mewn i'r brif adran ar unrhyw adeg. Mae yna adegau hefyd pan fydd rhaid i'ch cyflogwr eich symud yn ôl i mewn i'r brif adran, er enghraifft yn ystod:-

- Hunan-gofrestriad
- Salwch pan fydd eich cyflog yn disgyn i sero
- Absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu pan fydd eich cyflog yn disgyn i sero

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen adran 50/50 oddi ar ein gwefan ar www.gwentpensionfund.co.uk/forms-and-publications/election-to-join-the-50-50-section-of-the-lgps-form/

Seiberddiogelwch

Sut i wybod bod neges e-bost, neges destun neu alwad yn dwyllodrus

Efallai y bydd troseddwr seiber yn cysylltu â chi drwy neges e-bost, neges destun, galwad ffôn neu gyfryngau cymdeithasol. Byddant yn esgus bod yn rhywun neu'n gwmni yr ydych yn ymddiried ynddynt er mwyn ennill eich ymddiriedaeth.



Mae sgamwyr yn dod yn fwy clyfar ac mae'n anoddach adnabod sgam gan fod rhai hyd yn oed yn twyllo'r arbenigwyr.

Mae troseddwr yn defnyddio codau QR mewn negeseuon e-bost i we-rwydo i dwyllo defnyddwyr i fynd i wefannau twyllodrus. Byddwch y ofalus bob tro wrth sganio codau QR mewn negeseuon e-bost.

Gwybod beth yw beth

Mae yna rai arwyddion amlwg sydd i'w gweld yn aml mewn sgamiau.

Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Honni eu bod o rywle swyddogol fel banc, cyfreithiwr neu adran y llywodraeth.
- Dweud bod gennych amser cyfyngedig i ymateb neu i chi golli allan
- Defnyddio iaith sy'n gwneud i chi boeni, mynd i banig neu fod yn chwil-frydig, i'ch temtio i gael rhagor o wybodaeth.
- Ydych chi'n disgwyl gweld hyn gan y cwmni? Mae troseddwr yn manteisio ar straeon neu ddigwyddiadau mawr sydd yn y newyddion ar y pryd fel bod y twyll yn berthnasol.

Os oes amheuaeth, cysylltwch â'r cwmni'n uniongyrchol. Defnyddiwch y manylion ar eu gwefan swyddogol neu ddogfennau ac nid o'r neges e-bost neu neges destun.

Mae'n hawdd riportio sgam i'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol trwy ei gwefan - www.ncsc.gov.uk/collection/phishing-scams.

Ewch i wefan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol am gyngor pellach am sut i fod yn ddiogel ar-lein, ar

www.ncsc.gov.uk/cyberaware/home



Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'n ddyletswydd ar Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) i ddiogelu arian y cyhoedd a weinyddir gennym. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o Fenter Twyll Genedlaethol y Llywodraeth. Gallwn rannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio arian cyhoeddus neu ei weinyddu, at ddiben atal twyll a'i ganfod.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan arfer **'Cod Cyfateb Data'**. Gallwch lawrlwytho'r cod oddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, ar: www.audit.wales/about-us/national-fraud-initiative.

Ewch i wefan Cyber Aware y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol am gyngor am gadw'n ddiogel ar-lein - NCSC.GOV.UK

Tachwedd 2022 | V.01

Peidiwch â gadael i sgamiwr fwynhau eich ymddeoliad chi



Dewch i wybod sut mae sgamiau pensiwn yn gweithio, sut i'w hosgoi a beth i'w wneud os ydych yn amau sgam.



Gall sgamwyr swnio'n rhugl ac yn wybodus yn ariannol, gyda gwefannau credadwy, tystebau a deunyddiau sy'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth rai go iawn. Mae sgamwyr yn dylunio cynigion deniadol i'ch perswadio i drosglwyddo'ch cronfa bensiwn iddynt neu i ryddhau arian ohoni. Yna, caiff ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau anarferol a risg uchel fel eiddo tramor, bondiau ynni adnewyddadwy, coedwigaeth, unedau storio, neu eu dwyn yn llwyr.

Mae tactegau sgamio yn cynnwys:



- cysylltu'n ddirybudd



- addewidion o enillion uchel / gwarantedig



- adolygiadau pensiwn am ddim



- mynediad i'ch pensiwn cyn 55 oed



- pwysau i weithredu'n gyflym

Os ydych yn amau sgam, rhowch wybod amdano

- Adrodd i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

drwy gysylltu â'u Llinell Gymorth
Defnyddwyr ar 0800 111 6768
neu ddefnyddio'r ffurflen adrodd yn
www.fca.org.uk

- Adroddiad i Action Fraud

ar 0300 123 2040 neu yn
www.actionfraud.police.uk

- Os ydych yng nghanol trosglwyddiad

cysylltwch â'ch darparwr ar
unwaith ac yna cysylltwch â
www.moneyhelper.org.uk

www.fca.org.uk/scamsmart

Ewch i wefan MoneyHelper am ragor o wybodaeth am eu gwasanaeth, ar:
www.moneyhelper.org.uk/en/pensions-and-retirement/pension-wise